SIART LLIF PROSES ASESU a SA YSTJ HAF 2021

CYFRINACHOL

CAM 1: [w/c 15fed Mawrth] POLISI ASESU A SA

Cwblhau drafft Polisi Asesu a Sicrhau Ansawdd Ysgol Gyfan yn barod i'w gyflwyno

CAM 2: [26ain Mawrth / 16eg Ebrill] CYNLLUNIO CYFADRANNOL

Pob Cyfadran i gyflwyno Graddau Mewnol drafft drwy Go4Schools [16eg Ebrill] a chyflwyno Cynllun Asesu Pynciol drafft [26ain Mawrth] ar gyfer bob pwnc i'r UDA gan ddefnyddio'r wybodaeth mwyaf diweddar ar wefan CBAC

CAM 3: [w/c 12fed Ebrill] ADOLYGIAD 1

Cyswllt UDA yn cyfarfod Arweinwyr Cyfadrannol wedi cwblhau gwiriad UDA o ddata cyfredol bob pwnc yn erbyn data perfformiad hanesyddol a rhoi adborth er mwyn cadarnhau'r Cynlluniau Asesu Pynciol terfynol

CYFNOD ADDYSGU, DYSGU AC ASESU [12fed Ebrill - 28ain Mai]

Cyfadrannau yn gweithredu eu cynlluniau'n gyfunol drwy eu sesiynau dosbarth gan blethu'r cyfleoedd asesu ffurfiol i'r profiadau dysgu. Bydd pynciau yn cyd-safoni yn fewnol yn ystod y cyfnod fel mae rhai asesiadau'n cael eu cwblhau.

CAM 4: [HMS 7/6/2021] SICRHAU ANSAWDD CYFADRANNOL

Pob pwnc o fewn eu cyfadran i gyd-farcio a safoni asesiadau mwyaf diweddar, cysoni'r sail dystiolaeth a chytuno ar egwyddorion graddio yn unol â'u Cynlluniau Asesu Pynciol. Bwydo graddau CDG drafft i mewn i Go4Schools ar gyfer gwiriad Cyfadrannol.

CAM 5: [GWYLL 9fed neu 10fed MEHEFIN] CYMEDROLI CYMHEIRIAID

Cyfarfodydd cymedroli pynciol ysgol > ysgol er mwyn cefnogi prosesau dod i farn ar raddau. Addasu graddau CDG drafft fel bo'r angen yn Go4Schools, rancio graddau a gwirio'n fewnol yn erbyn y modelau data am batrymau annodweddiadol.

CAM 6: [15fed MEHEFIN] CYFLWYNO CDG DRAFFT

Pob Arweinydd Cyfadran i gadarnhau'r CDG drafft mewnol i'r UDA ar gyfer gwiriad amrywiad mewnol.

CAM 7: [16eg tan 18fed MEHEFIN] ADOLYGIAD 2

Cyfarfodydd strategol UDA a Cyfadrannau er mwyn trafod CDG drafft yn dilyn y gwiriad amrywiad mewnol ac unrhyw addasiadau terfynol.

CAM 8: [21ain MEHEFIN] DILYSU YSGOL > YSGOL

Cyfarfodydd lefel Uwch Arweinwyr i ddilysu data lefel ysgol ar draws y 5 ysgol a chadarnhau CDG Ysgol dros dro.

CAM 9: [22ain MEHEFIN] CDG DROS DRO I DDYSGWYR

Cyflwyno graddau dros dro i ddysgwyr mewn adroddiad

CAM 10: [23ain MEHEFIN - 1af GORFFENNAF] ADOLYGIADAU MEWNOL

Ffenestr i ddysgwyr a rhieni wneud cais am adolygiad o'u gradd/au yn erbyn prosesau adolygiad canolfan CBAC

CAM 11: [2il GORFFENNAF] CYFLWYNO CDG I CBAC

Dyddiad olaf i gyflwyno graddau CDG i CBAC